

MORRIS, WILLIAM (1705 - 1763), llythyrwr a llysieuegwr

Enw: William Morris
Dyddiad geni: 1705
Dyddiad marw: 1763
Priod: Jane Morris (née Hughes)
Plentyn: Jane Jones
Plentynt: Robert Morris
Rhiant: Margaret Morris (née Owen)
Rhiant: Morris Morris
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Ilythyrwr a llysieuegwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Natur ac Amaethyddiaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

3ydd mab **Morris ap Rhisiart Morris**, a brawd i **Lewis, Richard**, a **John Morris**; ganwyd 6 Mai 1705 yn y Fferem, Llanfihangel Tre'r Beirdd. Awgryma ef ei hunan mai gŵr tal main ydoedd; effalai ei fod hefyd yn gwargrymu, oblegid y mae ei nai **John Owen** yn ei lysenwi'n 'Gwilym Gam' - ond effalai hefyd mai ei 'grintachrwydd' a oedd wedi digo ei nai hoyw; nid oedd haelfrydedd ei frawd **Richard** gan William, nad ychwaithiathrylith bigog ei prawd **Lewis**; ond nad 'dyn mwyn-galed' oedd ef, â mwys o synnwyr cyffredin na'i frodyn. Gwyddys iddo'n ifanc fwrr cryn amser yn Lerpowl (yr oedd yno yn 1726, beth bynnag), ond yn Chwefror 1737 penodwyd ef yn gasglynnydd y doll yn mhorthladd Caergybi (yn ddiweddarach cafodd fân swyddi cyllidol eraill gyda hon), ac yn 1758 daeth yn rheolwr (Comptroller of Customs) yno - yr oedd yn y cyfamser (1742) wedi gwirthod bod yn brif glerc yr yollfa yng Nghaerleon-fawr. Felly yng Nghaerbygi y bu o 1737 hyd ei farw; yr oedd yn 'feddyg gwlad' answyddogol ac yn cael galw arno'n aml hefyd am help mewn materion o gyfraith neu o fwnses. Ei gyfaill pennaf yng Nghaerbygi oedd **Thomas Ellis**, curad y plwyf, nes symudwyd hnwnn i Nutfield yn 1759; ac yr oedd William Morris yn gófeistr yn y llan, a chanddo ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth gysegredig. Yn wir, ef oedd yr unig un o'r brodyr y breuddwydiodd neb am briodoli emyn (sef 'Golchwyd Magdalén yn ddisglair') iddo, er y carem sicrach prawf o'r awduraeth. Cyfranogai hefyd, yn llawn, o atgasedd **Thomas Ellis** at y Methodistiaid. Effalai mai pwnc arbennig William Morris oedd llysieug (er ei fod hefyd yn naturiaethwr cyffredinol da); yr oedd ganddo wybodaeth anarferol o lysisau, ac ar ei waith ef yn bennaf y seiliwyd *Welsh Botanyology* **Hugh Davies** o Aber. Yr oedd' hefyd, fel ei frodyn, yn gasglwr a chopiwr llawysgrifau, ac yn neilltuol falch o'r 'Delyn Ledr' y bu bron iddi fynd ar ddifancioll o ddwylo diofal **GORONWY OWEN**. Perchid ei wybodaeth a'i farn ar faterion Cymraeg gan ei frodyn, a chymerau yntau ddiddordeb mawr yng Nghymreithas y Cymrodonion - ef, i bob pwrras, a ddeuwisodd 'aelodau gohebol' cyntaf y gymdeithas. Hysbys yw ei ran yn 'narganfyddiad' **GORONWY OWEN** a 'Robin Ddu yr Ail o Fôn' (Robert Hughes). Ond fel llythyrwr y mae William Morris yn wir bwysig - ei lythyrau ef yw dwy ran o dair o gasgliad **J. H. Davies**. Darlunir holl fywyd Môn yn y llythyrau hyn, a hwy yw'r ffynhonnell bwysicaf ar hanes cymdeithasol yr yns yn y 18fed ganrif.

Priododd (yn 1745) â Jane, ferch ac aeres Robert Hughes o Lanfugail (**J. E. Griffith**, *Pedigrees*, 41); bu hi farw 1 Mai 1750. Bu mab a merch o'r briodas hon fyw. Priododd y mab (hynaf), ROBERT MORRIS (a aned 9 Mawrth 1746), â Jane Parry (gweddwl, o **deulu Bulkeley** o'r Brynddu - gweler **J. E. Griffith**, op. cit., 33); gwerthodd ei gyfran o stad Llanfugail ac aeth i fyw yng Nghaerbygi. Bu'r ferch, JANE (JONES) (1749 - 1833), a aned 12 Chwefror 1749, yn briod ddwywaith, y tro cyntaf â John Jones, ecseimson yng Nghaernarfon, a'r ail dro â Thomas Jones, swyddog yn hollola Biwmaries (**J. E. Griffith**, op. cit., 41), ond bu farw'n weddw, 21 Chwefror 1833 (*Camb. Quart. Mag.*, v, 311) - ganddi hi y cafwyd y llythyrau a sgrifennodd **GORONWY OWEN** at ei thad (gweler y rhagymadrodd i argraffiad **J. H. Davies** o'r *Letters of Goronwy Owen*). Sonia llythyrau William Morris lawer am ei blant. Bu ef farw 29 Rhagfyr 1763 - yr oedd i bob pwrras ar ei wely angau pan fu farw ei dad, ac yn analluog i fynd i'r angladd; ei lythyrau yn hysbysu hynny i **Lewis Morris** oedd ei lythyr olaf un sydd gennym, 12 Tachwedd 1763.

Awdur

Yr Athro Emeritus **Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

Ffynonellau

J. H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Mâ'n) 1728-1765* (1907), [cyf. I](#), [cyf. II](#); mynegeion gan Hugh Owen
Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* (London 1947-9)

a'r cyfeiriadau yng nghorff yr ysgrif

Darllen Pellach

LIGC: [Siartiau Morwrol Lewis Morris a William Morris](#)

T. R. Roberts, *Y Monwyson: Lewis Morys, Richard Morys, William Morys a Goronwy Owen* (Caernarfon 1902)

Erthygl Wicipedia: [William Morris](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [55616521](#)

Wikidata: [Q13132363](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Jenkins, R. T., (1953). MORRIS, WILLIAM (1705 - 1763), llythyrwr a llysieuwegwr. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORR-WIL-1705>

Clipboard

Preifatrwydd a Chwclis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodder gan
Iwerddon a Cymru
Sponsored by
Welsh Government